# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

# 21 HYDREF 2016

**YN BRESENNOL:** **A. Edwards (Cadeirydd);**

**Aelodau o Gyngor Sir Caerfyrddin:-**

**Y Cynghorydd W.G. Hopkins a'r Cynghorydd P.E.M. Jones;**

**Aelodau o Gyngor Sir Ceredigion**

**A Lloyd-Jones a J.D. Rowland Jones;**

**Aelodau o Gyngor Sir Penfro**

**Y Cynghorydd R. Summons, Y Cynghorydd T. Wilcox a'r Cynghorydd S. Yelland;**

**Aelodau o Gyngor Sir Powys**

**Y Cynghorydd D.O. Evans, Y Cynghorydd G. Jones a'r Cynghorydd P. Medlicott;**

**Aelod Annibynnol**

**Yr Athro Ian Roffe;**

**Yn bresennol o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

**Mr. D. Llywelyn – Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu;**

**Mrs. C. Morgans – Pennaeth y Staff;**

**Roedd y swyddogion canlynol hefyd yn bresennol: -**

**Cyngor Sir Caerfyrddin:-**

**Mr R. Edgecombe – Rheolwr Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol;**

**Mrs D. Williams - Rheolwr Cynorthwyol Marchnata a'r Cyfryngau;**

**Mr. M.S. Davies - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.**

**(Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Llandrindod 12.30pm – 2.00 p.m.**

## 1. YMDDIHEURIADAU A MATERION ERAILL

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd W.J.W. Evans a'r Cynghorydd T.H. Lewis.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith mai hwn oedd ei gyfarfod olaf a diolchodd i'r aelodau a'r swyddogion am eu cefnogaeth.

Talodd yr aelodau deyrnged i'r arweinyddiaeth a ddangoswyd gan Mr. Edwards yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd. Roedd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn dymuno ategu'r sylwadau hynny.

Safodd y Panel mewn tawelwch yn arwydd o deyrnged er cof am yr holl bobl a oedd wedi colli eu bywydau neu ddioddef o ganlyniad i drychineb Aberfan ar y diwrnod hwn yn 1966.

# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

# 21 HYDREF 2016

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**3. COFNODION**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys oedd wedi ei gynnal ar 30 Medi 2016 i nodi eu bod yn gywir.**

**4. MATERION YN CODI**

Nid oedd dim materion yn codi.

**5. ADRODDIAD CYNNYDD AR Y CYNLLUN HEDDLU A THROSEDDU**

Dosbarthodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu adroddiad a fanylai ar y broses a gynhaliwyd i lywio ei Gynllun Heddlu a Throseddu yr oedd yn ofynnol iddo ei gyflwyno o dan Adran 5 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y themâu allweddol o ran yr heddlu a throseddu, i'w hystyried gan y Panel. Byddai'r Cynllun am y cyfnod 2017-21. Hefyd, dosbarthodd y Comisiynydd amserlen arfaethedig ar gyfer parhau i ddatblygu'r Cynllun, cynnal proses ymgynghori a'i gyhoeddi. Dywedwyd wrth y Panel y byddai'r Prif Gwnstabl newydd yn dechrau ar ei swydd ar 18 Rhagfyr 2016 ac yna byddid yn symud ymlaen â'r trefniadau ar gyfer penodi Dirprwy Brif Gwnstabl.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Croesawodd y Cadeirydd ymdrechion y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i sicrhau consensws trawsbleidiol i sicrhau bod gwasanaeth Awdurdod yr Heddlu yn cael ei gyllido'n ddigonol;
- Cytunodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i ddosbarthu papur a baratowyd ynghylch methodoleg cofnodi troseddau;
- Cydnabuwyd bod angen strategaeth gyfathrebu dda sy'n pwysleisio'r neges bod natur plismona yn newid yn sgil cynnydd o ran seiberdroseddu sy'n cael ei gyflawni ar-lein ac na all swyddogion ar y strydoedd fynd i'r afael ag ef;
- Croesawodd yr aelodau wahoddiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i gyflwyno eu sylwadau ynghylch y Cynllun cyn i'r drafft terfynol gael ei gymeradwyo ym mis Ionawr 2017, a fyddai'n cael ei gyhoeddi wedyn yn y flwyddyn ariannol newydd;
- Nododd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu y byddai'n cynnal cynhadledd ar 7 Rhagfyr 2016 lle gallai aelodau'r Panel drafod materion fel pennu praesept y Dreth Gyngor ac adolygiad o wariant y gaeaf.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

**6. PENDERFYNIADAU A WNAED GAN Y COMISIYNYDD**

Er gwybodaeth, cafodd y Panel adroddiad a fanylai ar y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ystod y cyfnod 14 Gorffennaf - 13 Hydref 2016.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

# 21 HYDREF 2016

## 7. CWYNION A MATERION YMDDYGIAD

Cafodd y Panel adroddiad a nodai nad oedd unrhyw gwynion na materion ymddygiad wedi'u cofnodi yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ers y cyfarfod blaenorol. Fodd bynnag, yn dilyn ystyriaeth flaenorol y Panel o gŵyn a wnaed gan Mr. a Mrs. Blackburn yn erbyn y Comisiynydd, yn unol â Rheoliadau Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Cwynion a Chamymddygiad) 2012, rhoddwyd gwybod i'r ddwy ochr am y canlyniad ac roeddent wedi cytuno y gellid ei gyhoeddi. Felly, gwahoddwyd y Panel i ystyried a oedd cyhoeddi'r adroddiad o fudd i'r cyhoedd.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad uchod, sy'n manylu ar ganlyniad y gŵyn dan sylw, yn cael ei gyhoeddi ar wefan newydd y Panel.**

## 8. CYNYDDU PRESENOLDEB Y PANEL YN Y CYFRYNGAU

Rhoddodd Rheolwr Cynorthwyol Marchnata a'r Cyfryngau wybod i'r Panel am y gweithgareddau/mentrau a gynhaliwyd ers ei gyfarfod diwethaf i hybu ei bresenoldeb yn y cyfryngau. Roedd y rhain yn cynnwys cyhoeddi datganiadau i'r wasg ac ailwampio gwefan y Panel nad oedd yn fyw eto, ond byddai'r aelodau yn cael dolen gyswllt fel y gallent gyflwyno eu sylwadau.

**NODWYD.**

## 9. GRANT Y SWYDDFA GARTREF AR GYFER GWEITHGAREDDAU'R PANEL

Ymhellach i gofnod 8 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai 2016, adroddwyd mai swm yr hawliad a gyflwynwyd gan yr awdurdod cynnal am waith a wnaed yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2016 – 30 Medi 2016 oedd £16,070.01, a nodir y manylion isod:

1. Treuliau'r Aelodau £2,985.11
2. Costau cyfieithu £188.25
3. Costau cynnal y Panel £12,896.65.

Uchafswm y grant am y flwyddyn ariannol 2016/17 oedd £71,895.00 a gallai'r awdurdod cynnal gyflwyno hawliad pellach mewn perthynas â'r costau sydd ganddo rhwng 1 Hydref 2016 a 31 Mawrth 2017.

Dywedwyd wrth y Panel ei bod yn amlwg bod cyfle, gan fod grant ar gael, i ystyried sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen, yn ogystal â chyfarfodydd chwarterol y Panel, er mwyn ystyried materion penodol pe byddid yn barnu bod hynny'n briodol.

**PENDERFYNWYD**

**9.1 nodi'r adroddiad;**

**9.2 ceisio a dosbarthu eglurhad ynghylch mater treuliau'r aelodau a'u hawl i gael treuliau am hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn.**

## 10. UNRHYW FATER ARALL - YMCHWIL ACADEMAIDD

**PENDERFYNWYD rhoi caniatâd i Reolwr Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol enwi'r Panel fel cyfranogwr mewn ymchwil yr oedd yn ei chynnal ar y sail y gallai fod o fudd i'r Panel yn ei drafodaethau yn y dyfodol.**

**LLOFNODWYD: ……………………… DYDDIAD: ………………………………..**